

# Gair Duw

## Darllen: Actau 8:31

Y chydig wythnosau cyn i mi gychwyn ar fy nghwrs gradd, bu'n rhaid i mi fynd i'r ysbyty i dynnu fy nhonsiliau – triniaeth ddigon egr bryd hynny! Gan y gwyddwn y byddai'n rhaid i mi ymgodymu â'r iaith Roeg, dyma fynd â'r Testament Newydd Groeg efo mi. Dyna lle'r oeddwn yn ceisio'i ddarllen, heb gael fawr o hwyl arni pan ddaeth y nyrs heibio. 'Beth ydi hwn?' meddai'n ddigon sarhaus, a dyma geisio esbonio gorau medrwn. A'i hymateb oedd, 'Fedra i ddim deall y Beibl yn Gymraeg heb sôn am iaith fel 'na. Ydych chi'n ei ddeall o?' Cwestiwn digon teg.

Ac yn y darlleniad hwn, down at ddyn, eunuch sy'n darllen ei Feibl. Gŵr o dras, swyddog uchel i frenhines Ethiopia, a oedd ar daith hir o Jerwsalem, i lawr ffordd y glannau tua'r Aiff ac ymlaen wedyn i Affrica. Ac ar y ffordd droellog, garegog hon roedd yn treulio'i amser yn darllen geiriau'r proffwyd Eiseia pan ddaeth rhywun at ffenestr y cerbyd a gofyn, 'A wyt ti'n deall, tybed, beth yr wyt yn ei ddarllen?' (Actau 8:30), ac yntau'n ateb, 'Wel, sut y gallwn i, heb i rywun fy nghyfarwyddo?' (8:31).

A dyna'r gwir bob tro y trown at y Beibl - mae angen cymorth a chyfarwyddyd arnom. Ydi, mae'n llyfr anodd, neu yng ngeiriau'r nyrs, 'Fedra i ddim deall y Beibl yn Gymraeg heb sôn am iaith fel 'na'. Mae'n cynnwys gwahanol fath o lyfrau - hanes, barddoniaeth, cyfraith, llythyrau ac yn y blaen. Mae'n rhaid i ni gael cyfarwyddyd. A'r cyfarwyddwr yw Iesu ei hun. Yn yr Hen Destament, cawn hanes Duw yn ymwneud â'i bobl, ac yn y Testament Newydd mae'r ymwneud hwnnw'n cyrraedd ei uchafbwynt ym mywyd, gweinidogaeth, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu. Ond mae'n rhaid i ni gael cyfarwyddyd i ddeall hyn oll. A dyna gafwyd pan ddaeth Philip heibio i'r eunuch hwn. Pan ddarllenodd y swyddog y geiriau, 'Arweiniwyd ef fel dafad i'r lladdfa, ac fel y bydd oen yn ddistaw yn llaw ei gneifiwr, felly nid yw'n agor ei enau' (32), fe ofynnodd, 'Dywed

i mi, am bwy y mae'r proffwyd yn dweud hyn?' (34). A dyma gyfle Philip i gyfarwyddo ac esbonio.

Mor hanfodol yw cael cyfieithydd. Mae'n rhaid i ni gael rhywun i'n tywys yng ngherbyd bywyd ar hyd y ffordd glonciog; mae'n rhaid cael rhywun i'n cyfarwyddo. Ond dydi'r hanes ddim yn gorffen efo'r ddau yn astudio'r testun. Yn sydyn, mae'r swyddog yn codi ei olygon oddi wrth y sgrôl a'i diwtor, ac yn gweld dŵr ac yn gofyn, 'Dyma ddŵr; beth sy'n rhwystro i mi gael fy medyddio?' (37). Ac fe'i bedyddiwyd yn nyfroedd prin yr anialwch. A'r pwynt pwysig yw bod y darllen, yr astudiaeth Feiblaidd, a'r trafod wedi arwain nid at theori ond at berson, at Dduw personol yn galw'r eunuch ato ac i'w waith. A dyna mae'r Beibl yn gallu ei wneud – newid pobl. Bu'r astudiaeth Feiblaidd hon yn llwyddiannus gan i'r eunuch ymateb trwy'r Gair i alwad Duw. A dyna ddiwedd yr hanes yn Llyfr yr Actau. Ond beth ddigwyddodd wedyn, tybed? Dychmygwn y dyn hwn yn mynd yn ôl i'w wlad, ac wedi'r profiad yn yr anialwch yn mynd ati i gychwyn eglwys yn y wlad honno. Ni allwn ond dychmygu.

### **Myfyrdod pellach:**

Beth yn eich barn chi yw pwrpas adrodd y stori hon yn Llyfr yr Actau?

Pa mor allweddol ydi astudiaethau Beiblaidd ym mywyd eich eglwys?